**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20fed Hydref 2008**

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

**Adroddiad gan y Cynghorydd Trevor Roberts,
Cadeirydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub.

## Cefndir

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yr Awdurdod, ac yn ei absenoldeb, gan yr Is-Gadeirydd, a hynny ers Mehefin 16eg 2008.

## Gwybodaeth

**3.** Isod ceir rhestr o'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd ers Mehefin 16eg 2008 hyd at heddiw:

**Gwybodaeth** *(parhad)*

4.

| Dyddiad | Meeting /Event attended |
|---|---|
| 23ain Mehefin | Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd sesiwn dadfriffio'r Gymdeithas Diffoddwyd Tân Ifanc yn dilyn penwythnos blynyddol y Gymdeithas i ddathlu llwyddiant. |
| 27ain Mehefin | Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Cyngor y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Llandrindod |
| 2il Gorffennaf | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod yng Nghaerdydd, rhwng y tri Chadeirydd ac un o Weinidogion y Cynulliad, Dr Brian Gibbons |
| 8fed Gorffennaf | Cyfarfu'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân â Chynrychiolwyr yr Undebau Llafur yn y Pencadlys yn Llanelwy |
| 17eg Gorffennaf | Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod o randdeiliaid Fire-Link yn Llundain |
| 22ain Gorffennaf | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod o Fwrdd Rhaglen Gogledd Cymru yn Llanelwy |
| 28ain Gorffennaf | Mynychodd gyfarfod o'r Panel Gweithredol yn y Pencadlys yn Llanelwy |
| 1af Awst | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân agoriad y Tendrau ar gyfer y FSOR ym Mae Colwyn |
| 5ed Awst | Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ddangosiad o'r Hyfforddiant Dŵr/Llifogydd yn Llanrwst |
| 12fed Awst | Roedd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Mr Paul Claydon, yn bresennol ar adeg ymweliad â staff y System Dyletswydd Ran Amser â'r Rhyl |
| 25ain Awst | Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd agoriad Gemau Diffoddwyr Tân y Byd yn Lerpwl |
| 28ain Awst | Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ynghyd â rhai Swyddogion, y Gynhadledd Tân Genedlaethol yn Lerpwl |

| **Gwybodaeth** *(parhad)* | |
|---|---|
| 2il Medi | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cynorthwyol Mrs Ruth Simmons y Swper i gloi Gemau Diffoddwyr Tân y Byd yn Lerpwl |
| 8fed Medi | Mynychodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Swyddogion a'r Aelodau, Seremoni Cwblhau Hyfforddiant Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc yng Nghaergybi |
| 9fed Medi | Mynychodd y Cadeirydd agoriad yr Orsaf Dân sydd wedi ei hailwampio ym Miwmares |
| 10fed Medi | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Mr C. Hanks gyfarfod gyda chynrychiolydd staff Undeb y Diffoddwyr Tân Rhan Amser (*RFU*) yn Llanelwy |
| 14eg Medi | Mynychodd y Cadeirydd a Richard Fairhead ddiwrnod coffa cenedlaethol y Gwasanaeth Tân yn Llundain |
| 15fed Medi | Mynychodd y Cadeirydd sesiwn y bore o Seminar ar y cyd Awdurdodau Tân Cymru yn Aberhonddu |
| 19eg Medi | Mynychodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Mr Paul Claydon seremoni cwblhau hyfforddiant y Ffenics yn yr Wyddgrug |
| 20fed Medi | Mynychodd y Cadeirydd ddiwrnod agored yn yr Orsaf Dân Gymunedol yn y Rhyl |
| 25ain Medi | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod o Fwrdd Rhaglen Gogledd Cymru yn Llanelwy |
| 26ain Medi | Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Hwlffordd |
| 30ain Medi | Mynychodd y Cadeirydd un o gyfarfodydd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (*NJC*) yn Llundain |
| 3ydd Hydref | Mynychodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Aelodau agoriad swyddogol yr Orsaf Dân Gymunedol yn y Rhyl |
| 7fed Hydref | Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod o Weithgor y Cadeirydd yn y Pencadlys yn Llanelwy |

| **Gwybodaeth** *(parhad)* | |
|---|---|
| 14eg Hydref | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod yng Nghaerdydd rhwng y tri Chadeirydd ac un o Weinidogion y Cynulliad, Dr Brian Gibbons |
| 15fed Hydref | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Mr Colin Hanks gyfarfod gyda Chynrychiolwyr y Staff yn y Pencadlys yn Llanelwy |

**Argymhelliad**

**5.** Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.